POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD YNGLŶN Â CHYNLLUN HEDDLU A THROSEDD DIWYGIEDIG Y COMISIYNYDD AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir ym Mharagraff 28(3) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throseddu

Yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth bu i'r Panel ystyried y Cynllun Heddlu a Throsedd Diwygiedig ar gyfer Gogledd Cymru.

Cydnabu'r Panel fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Comisiynydd wedi disodli'r amcanion heddlu a throsedd a nododd yn ei gynllun cyntaf gyda phedwar amcan newydd:

- Atal Troseddu
- Darparu ymateb effeithiol
- Lleihau niwed a risg niwed
- Ffurfio partneriaethau effeithiol

Bwriad yr amcanion hyn yw gwneud pethau'n gliriach i Heddlu Gogledd Cymru, ei staff a'i bartneriaid, a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r rheiny sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol. Cydnabu'r Panel y byddai'r amcanion yn cael eu hategu gan fesurau, a fyddai'n galluogi'r Comisiynydd i fesur perfformiad yr Heddlu.

Argymhellion:

(a) Cefnogi Cynllun Heddlu a Throsedd Diwygiedig Gogledd Cymru ar gyfer ei fabwysiadu.

(b) Adroddiadau monitro i'w cyflwyno i'r Panel Heddlu a Throsedd yn rheolaidd ar gyflawni'r amcanion o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mawrth 2014